CYLCHLYTHYR

RHIFYN 08 • EBRILL 2024

CARFAN GOFAL PLANT RhCT

SHWMAE A CHROESO

I RIFYN Y GWANWYN EIN CYLCHLYTHYR.

Cysylltwch os oes gyda chi unrhyw ymholiadau neu awgrymiadau ar gyfer ychwanegiadau yn y dyfodol.

Y newyddion diweddaraf am y garfan gofal plant

Efallai y bydd rhai ohonoch chi'n effro i'r ffaith bod ein Swyddog Datblygu Gofal Plant, Sian Wood, wedi bod ar gyfnod mamolaeth ac yn mwynhau treulio llawer o amser gyda'i bachgen bach newydd hyfryd. Mae Rachael a Cerys yn gwneud gwaith gwych yn cadw pethau mewn trefn nes iddi ddychwelyd yn gynnar yn yr haf.

Mae cynllun gweithredu'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant (ADdGP) bellach wedi'i ddiweddaru ar gyfer 2024. Eleni, byddwn ni'n parhau i ganolbwyntio ar recriwtio gwarchodwyr plant ac ymgysylltu â lleoliadau anghofrestredig a nanis. Ond, byddwn ni hefyd yn cysylltu â chamau gweithredu'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, felly byddwn ni'n gweithio i gefnogi gwasanaethau cyfrwng Cymraeg i ehangu a datblygu mewn meysydd newydd. Y flaenoriaeth allweddol arall i ni eleni yw meithrin cysylltiadau agosach ag ysgolion a cholegau i hyrwyddo gofal plant fel gyrfa. Mae modd bwrw golwg ar y cynllun wedi'i ddiweddaru yn **www.rctcbc.gov.uk/ADGP**.

Mae ein carfan yn parhau i ymweld â grwpiau rhieni ac mae'r amserlen ar gyfer tymor yr haf bellach wedi'i chwblhau. Mae modd i ni roi gwybodaeth i rieni am y Cynnig Gofal Plant, sut i ddod yn warchodwr plant, neu eu cyfeirio at wasanaethau eraill sy'n ymwneud â'r teulu. Os ydych chi'n cynnal grŵp Rhieni a Phlant/Ti a Fi, cysylltwch â ni a byddwn ni'n eich ychwanegu chi at ein rhestr ni. Mae amserlen o'n hymweliadau'n cael ei rhannu ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol bob mis.

Ymweliadau un-i-un

Bydd y garfan gofal plant yn cysylltu â chi i gyd dros y misoedd nesaf i drefnu ymweliadau â'ch lleoliadau. Bydd y rhain yn gyfle i ni gyflwyno ein hunain i chi, i weld beth y mae modd i ni ei wneud i'ch cefnogi chi ac i chi ofyn cwestiynau i ni. Cadwch lygad am e-bost neu alwad ffôn gennym ni i drefnu dyddiad ac amser addas.

Safonau Gofynnol Cenedlaethol (SGC)

Fel y gwyddoch chi, mae rhai newidiadau i'r SGC. Rhaid i leoliadau sicrhau bod y newidiadau yma'n cael eu rhoi ar waith erbyn **mis Tachwedd 2024** i barhau i gydymffurfio. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Cymorth cyntaf**
  Y gymhareb newydd yw y dylai 1 aelod o staff i bob 10 plentyn feddu ar Dystysgrif Cymorth Cyntaf Pediatrig 12 Awr. Os oes unrhyw staff yn cael eu gadael i ofalu am blant ar eu pennau eu hunain (h.y. Cynorthwywyr Gwarchod Plant) bydd angen tystysgrif 12 Awr arnyn nhw hefyd.
- **Cynorthwywyr Gwarchod Plant**
  RHAID i unrhyw Gynorthwy-ydd sy'n gweithio mewn lleoliad gwarchod plant gwblhau eu Cyflwyniad i Ofal Plant yn y Cartref (IHC). Os yw Cynorthwy-ydd yn gweithio'n wirfoddol yn eich lleoliad, bydd angen iddo gwblhau'r uned IHC er mwyn parhau i gydymffurfio â'r SGC. Mae gyda ni becyn ariannu ar gael ar gyfer Cynorthwywyr Gwarchod Plant yn RhCT. Cysylltwch â ni am ragor o wybodaeth. Cofiwch fod angen cwblhau'r uned yma erbyn mis Tachwedd 2024.
- **Diogelu**
  Mae gofynion newydd ar gyfer hyfforddiant Diogelu, yn dibynnu ar eich rôl o fewn y lleoliad gofal plant:

  Grŵp A – Rhaid i **BOB** aelod o staff sy'n gweithio mewn lleoliad gofal plant, ond sydd ddim yn gweithio'n uniongyrchol â'r plant (Swyddogion gweinyddol, Glanhawyr, ac ati.) gwblhau cwrs hyfforddi **Grŵp A**.

  Grŵp B - Rhaid i **UNRHYW** aelod o staff sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda'r plant gwblhau cwrs hyfforddi **Grŵp B**. Grŵp C - Rhaid i **UNRHYW** aelod o staff sydd â chyfrifoldebau rheoli (Gofalwyr Plant, Rheolwyr Meithrinfa, ac ati.) gwblhau cwrs hyfforddi Grŵp C.

Argymhellir i staff sydd ddim â phrofiad o Ddiogelu fynychu sesiwn Grŵp B cyn symud ymlaen i gwrs Grŵp C.

Carfan Gofal Plant yn RhCT Childcare Team in RCT

Cynnig Gofal Plant Cymru Childcare Offer for Wales

Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Rhondda Cynon Taf Family Information Service

Llywodraeth Cymru Welsh Government

RHONDDA CYNON TAF

52707-23

Cynnig Gofal Plant Cymru
Childcare Offer for Wales

Mae'r system genedlaethol yn parhau i gael ei mireinio a'i datblygu gan Lywodraeth Cymru. Mae'n ymddangos fel petai ychydig o faterion cyffredin yn codi. Mae'r garfan yn cynnig hyfforddiant gloywi i ddarparwyr sy'n cyflwyno'r Cynnig Gofal Plant. Bydd y sesiynau yma'n anffurfiol ac yn rhoi cyfle i chi ofyn cwestiynau. Mae modd bwrw golwg ar yr amserlen yn www.rctcbc.gov.uk/cynniggofalplant (cliciwch ar Gwybodaeth i Ddarparwyr). Does dim angen cadw lle - galwch heibio neu fewngofnodi.

Yn ogystal â'r hyfforddiant gloywi, dyma ychydig o nodiadau atgoffa::

- **Mae cyllid yn cael ei dalu mewn ôl-daliadau. Serch hynny, mae modd i chi wneud cais bob wythnos, a bydden ni'n eich annog chi i wneud hyn.**
- **Unwaith y byddwn ni wedi cymeradwyo hawliadau rhieni, rhaid sefydlu cytundeb ar y system gyda chi ar gyfer yr oriau yn ystod y tymor a'r gwyliau sydd wedi'u cytuno. Rhaid iddyn nhw wneud hyn erbyn y dydd Sul bob wythnos er mwyn gallu hawlio cyllid o'r wythnos ganlynol.**
- **Rhaid i chi gymeradwyo cytundebau erbyn y dydd Iau bob wythnos er mwyn i'r cytundeb hwnnw ymddangos ar eich hawliad ar y dydd Gwener.**
- **Mae modd i blant fanteisio o hyd ar y cynnig yn ystod y gwyliau, hyd yn oed os ydyn nhw'n mynychu'r ysgol llawn amser (hyd at y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd nhw'n 4 oed).**

Sesiynau galw heibio

Rydyn ni wedi rhoi'r gorau i'n sesiynau galw heibio yn y llyfrgell ac yn bwriadu eu disodli gydag achlysuron ad hoc yn y llyfrgell a'r ganolfan hamdden, gan ganolbwyntio mwy ar ymgysylltu â rhieni. Bydd rhagor o wybodaeth ar gael cyn hir.

Cofiwch, os ydych chi'n cynnal unrhyw achlysuron, rydyn ni'n hapus i fynychu i roi gwybodaeth a nwyddau am ddim i rieni. Hefyd, os ydych chi am i unrhyw ddeunydd hyrwyddo arddangos yn eich lleoliad, rhowch wybod i ni a bydd modd i ni eu hanfon nhw atoch chi.

Ehangu Gwasanaeth Gofal Plant Dechrau'n Deg

Os oes gyda chi ddiddordeb mewn cofrestru i ddarparu gwasanaethau Dechrau'n Deg, ffoniwch **Helen Fisher-Holland** ar **07824 496497** am ragor o wybodaeth. Mae modd i chi wneud cais i ymuno drwy gofrestru ar eDendroCymru, gan fynegi eich diddordeb mewn **ITT–92447** ac ateb a chyflwyno'r cwestiynau.

Hyfforddiant

Mae ein rhaglen hyfforddi ar gyfer tymor yr haf nawr ar gael. Diolch i gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, mae modd i ni gynnig cyrsiau Diogelu a Chymorth Cyntaf ychwanegol, i'ch helpu chi i baratoi ar gyfer y newidiadau i'r SGC.

Cofiwch roi gwybod i ni cyn gynted â phosibl os ydych chi wedi cadw lle ar gwrs ac nad oes modd i chi fod yn bresennol mwyach. Bydd modd i ni gynnig y lle hwnnw i rywun arall. Mae'n broblem fawr o hyd pan nad yw pobl yn mynd i sesiynau, mae'n gwastraffu arian ac yn golygu ei bod hi ddim yn bosibl dangos bod angen yr hyfforddiant yma a ariennir gan y sector. Y tymor diwethaf, gwelsom gyfradd diffyg presenoldeb o **44%** ar draws yr holl gyrsiau hyfforddi. Felly, rydyn ni wedi cael ein gorfodi i gyflwyno cyfyngiadau llymach ar ddiffyg presenoldeb. Os nad yw aelod o staff yn bresennol, heb amgylchiadau eithriadol, fydd dim modd i **ddim un aelod o staff** o'r lleoliad y maen nhw'n gweithio ynddo gael mynediad at unrhyw hyfforddiant a gynigir gan y garfan gofal plant am gyfnod o 2 fis.

Arolwg boddhad darparwyr

Diolch i bawb a gwblhaodd ein harolwg boddhad yn hydref 2023. Rydyn ni bob amser yn awyddus i glywed eich barn ar unrhyw adeg, felly ffoniwch neu e-bostiwch ni os oes gyda chi adborth ar sut y mae modd i ni wella ein gwasanaeth. Ar y cyfan, roedd yr adborth ar y garfan yn gadarnhaol gyda 100% yn graddio'r gwasanaeth rydych chi'n ei dderbyn gennym ni fel Ardderchog neu Dda. Roedd sylwadau penodol yn cynnwys:

Sylwadau arolwg	Ymateb
Cefnogaeth barhaus ar gyfer cyflenwadau cyfarpar diogelu personol.	Oherwydd cyfyngiadau ar y defnydd o'n cyllid, nid yw hyn yn rhywbeth y mae modd i ni ei gefnogi bellach.
Rhagor o arian cyfalaf bach.	Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd gyda ni gyllid yn 24/25 i gynnal y cynllun Grant Cyfalaf Bach eto. Bydd hwn yn lansio yn yr hydref, felly cadwch lygad am ragor o wybodaeth.
Nid yw cyrsiau hyfforddi bellach yn cael eu hanfon atom ni.	Caiff ein holl hyfforddiant eu hanfon at ddarparwyr trwy restr ddosbarthu Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (GGD) a'n tudalen Facebook gaeedig. Sicrhewch fod eich cyfrif DEWIS yn gyfredol ac ymunwch â'n grŵp Facebook - chwiliwch am Carfan Gofal Plant RhCT.
Rhagor o nodiadau atgoffa cyn cyrsiau hyfforddi.	Byddwn ni'n archwilio a oes modd i ni wella cyfathrebu a nodiadau atgoffa cyn i'r cyrsiau gael eu cynnal.
Mwy o hyfforddiant chwarae.	Rydyn ni wedi ariannu Pontio Gwaith Chwarae yn y gorffennol. Dyw'r niferoedd sy'n manteisio arno ddim wedi bod yn wych. Byddwn ni'n archwilio a oes modd i ni gynnig rhywfaint o hyfforddiant chwarae byrrach.
Hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	Bydd y garfan gofal plant yn ymchwilio i hyn ac yn rhoi gwybod i chi os oes modd i ni gynnig unrhyw rai o'r cyrsiau yma neu eich cyfeirio at ddarparwyr eraill.
Rhagor o hyfforddiant ymarferol yn seiliedig ar chwarae – bagiau stori, chwarae â blociau, adnoddau chwarae naturiol, syniadau echddygol bras a mân.	
Hyfforddiant lles – Happy Headwork.	
Cyfle i drafod anghenion iechyd meddwl a lles gofal plant/ y blynyddoedd cynnar.	
Cwricwlwm newydd, hyfforddiant fframwaith asesu.	
Hyfforddiant Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	Mae carfan Mynediad a Chynhwysiant Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn cynnig ystod o hyfforddiant ADY. Caiff gwybodaeth ei hanfon drwy e-bost drwy GGD a'i rhannu ar ein tudalen Facebook. Gweler y daflen ar wahân ar gyfer amserlen yr haf.
Cymorth a chefnogaeth gydag ymholiadau ADY.	Mae gan yr Adran Mynediad a Chynhwysiant ystod o gefnogaeth i leoliadau. Mae modd i **Suzanne Davidson**, Swyddog Arweiniol y Blynyddoedd Cynnar ADY, a **Luci Hooper**, Athrawes Ymgynghorol ADY y Blynyddoedd Cynnar, gynnig cymorth ac arweiniad. E-bostiwch **Suzanne.davidson@rctcbc.gov.uk** neu **luci.hooper@rctcbc.gov.uk**. Mae modd i leoliadau hefyd e-bostio'r Llinell Gymorth Seicoleg Addysg os hoffen nhw gael cyngor penodol. E-bostiwch GwasanaethSeicolegAddysg@rctcbc.gov.uk gydag amlinelliad byr o'r ymholiad/pryder a'ch rhif ffôn, a byddan nhw'n gwneud apwyntiad i drafod gyda chi dros y ffôn.

Mae'r Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant yn cynnal yr achlysuron hyfforddi ADY canlynol yn ystod tymor yr haf. E-bostiwch **CynaMyn@rctcbc.gov.uk** i gadw eich lle.

ADY

Modiwl 3: Gweithio Gyda'n Gilydd yn y Blynyddoedd Cynnar

Mae'r gweithdy yma wedi'i gynllunio i wella sgiliau ymarferwyr wrth ddeall egwyddorion cydweithio sy'n sail i Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, a'r Cod gorfodol dilynol. Mae'r cwrs yma yn addas ar gyfer unrhyw ymarferydd / gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant yn y Blynyddoedd Cynnar ym meysydd addysg, gofal plant, iechyd neu ofal cymdeithasol a'r trydydd sector. Bydd y sawl sy'n cymryd rhan yn caffael gwybodaeth i ddeall pwysigrwydd gweithio gyda'n gilydd fel partneriaid cyfartal i gyflawni'r deilliannau gorau i'r plentyn a'i deulu, deall sut i gael trafodaethau sensitif wyneb yn wyneb, deall pryd a pham i geisio cyngor gan eraill a deall sut i osgoi a datrys anghydfodau.

Dydd Mercher 1 Mai	**1.30 – 3.30**	**Teams**
	6.00 – 8.00	**Teams**

Modiwl 4: Y Broses Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn y Blynyddoedd Cynnar

Mae'r gweithdy yma wedi'i gynllunio i wella sgiliau ymarferwyr wrth ddeall y broses ADY newydd yn unol â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, a'r Cod gorfodol dilynol.

Bydd y sawl sy'n cymryd rhan yn caffael gwybodaeth a dealltwriaeth o amcanion y Ddeddf a Chod Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a'r goblygiadau i'r Blynyddoedd Cynnar, sut y bydd y broses ADY yn newid i blant nad ydyn nhw eto mewn addysg statudol, ymateb graddedig Ymarfer Cynhwysol yn y Blynyddoedd Cynnar, gan nodi a all plentyn fod ag ADY a'r dystiolaeth i gefnogi hyn a rolau a chyfrifoldebau yn y broses newydd.

Dydd Mercher 10 Gorffennaf	**1.30 – 3.30**	**Teams**
	6.00 – 8.00	**Teams**

Fforwm Cydlynwyr ADY y Blynyddoedd Cynnar

Dydd Iau 18 Ebrill	**1.30 – 2.30**	**Teams**
Dydd Iau 13 Mehefin	**1.30 – 2.30**	**Teams**

Hyfforddiant ar y Broses Atgyfeirio

Bydd y sesiwn yma'n ymdrin â'r broses a'r ffurflen atgyfeirio ar gyfer Fforwm y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer disgyblion y blynyddoedd cynnar (sydd ddim yn mynychu'r ysgol). Bydd y sesiwn yn cyflwyno'r broses o lenwi'r ffurflen atgyfeirio, y meini prawf y mae'n rhaid eu bodloni, y dystiolaeth sy'n ofynnol ar gyfer atgyfeiriad a phroses Fforwm y Blynyddoedd Cynnar. Mae modd i unrhyw un sy'n gweithio gyda phlant mewn lleoliad gofal plant, neu warchodwyr plant, fynychu'r sesiwn. Bydd y sesiwn yn fwy addas i Gydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol, ond mae croeso i unrhyw aelod arall o staff hefyd.

Dydd Mercher 15 Mai	**9.30 – 10.30**	**Teams**
	6.00 – 7.00	**Teams**

Cynllun Chwarae – Sesiynau Galw Heibio

Dydd Mawrth 16 Ebrill	**12.30-2.00**	E-bostiwch Luci Hooper i gadw eich lle – **luci.hooper@rctcbc.gov.uk**
Dydd Mawrth 30 Ebrill	**10.00-11.30**	
Dydd Mawrth 14 Mai	**12.30-2.00**	
Dydd Mawrth 28 Mai	**10.00-11.30**	
Dydd Mawrth 11 Mehefin	**12.30-2.00**	
Dydd Mawrth 25 Mehefin	**10.00-11.30**	
Dydd Mawrth 9 Gorffennaf	**12.30-2.00**	

Cynhadledd ADY y Blynyddoedd Cynnar

Bydd y sesiwn yma'n gyfle i leoliadau a staff ysgol y Blynyddoedd Cynnar ddod ynghyd a manteisio ar wybodaeth, cyngor ac arweiniad i blant y Blynyddoedd Cynnar sydd ag anghenion sy'n dod i'r amlwg, a meithrin cysylltiadau rhwng lleoliadau cyn-ysgol a'u Dosbarthiadau Meithrin priodol mewn ysgolion.

19 Mehefin	**1.00 – 3.30**	**I'w gadarnhau**

Gweithdy Dewisiadau Gyrfa mewn Gofal Plant

Yn ddiweddar, rydyn ni wedi cynnal dau weithdy Dewisiadau Gofal Plant i oedolion a phobl ifainc sydd â diddordeb mewn gyrfa yn y sector gofal plant. Maen nhw wedi bod yn llwyddiannus iawn ac mae llawer o'r rheiny a oedd yn bresennol yn awyddus i ddechrau eu taith i mewn i'r sector.

Rydyn ni wedi creu fideos byr i'w defnyddio yn yr achlysuron yma, gan arddangos yr amrywiaeth o leoliadau gofal plant sydd ar gael i weithio ynddyn nhw. Diolch yn fawr iawn i'r lleoliadau a gytunodd i gymryd rhan yn y fideos yma. Pe hoffai unrhyw un fwrw golwg arnyn nhw, ewch i **www.rctcbc.gov.uk/carfangofalplant** (cliciwch ar Gwybodaeth i Rieni a Gwarcheidwaid).

Byddwn ni'n cynnal ein gweithdy nesaf ym mis Mai/ Mehefin felly os hoffech chi gymryd rhan, naill ai drwy gyflwyno i'r grŵp, cynnig lleoliad gwaith neu ddiddordeb mewn cyfleoedd prentisiaeth, cysylltwch â ni.

Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP)

Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn gynllun deng mlynedd allweddol i wella addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg Gymraeg i blant yn Rhondda Cynon Taf. Mae ganddo 7 prif ddeilliant, ond mae deilliant 1 yn ymwneud yn benodol â chynyddu nifer y plant meithrin sy'n derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gwasanaethau gofal plant cyn ysgol yn allweddol i gyflawni'r deilliant yma.

Mae hyrwyddo'r cynllun yma i deuluoedd a denu siaradwyr Cymraeg i'r sector gofal plant yn flaenoriaethau allweddol ar gyfer Deilliant 1 Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a chynlluniau gweithredu ADdGP ar gyfer 24/25. Os oes modd i chi ein helpu drwy gynnig cyfleoedd lleoliad gwaith neu os hoffech chi ehangu eich gwasanaethau Cymraeg, cysylltwch â ni. Rydyn ni'n arbennig o awyddus i hyrwyddo Gwarchodwyr Plant Cymraeg eu hiaith, felly rhowch wybod i ni os ydych chi'n cynnig y gwasanaeth yma.

Mae rhagor o wybodaeth am y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ar gael yma **www.rctcbc.gov.uk/CSCA**.

Cynllun Camau

Mae cynllun Camau wedi'i gynllunio'n benodol ar gyfer ymarferwyr Gofal Plant a hoffai ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.

Mae 3 chwrs ar gael a bydd modd i chi ddewis y cwrs mwyaf addas, yn seiliedig ar eich sgiliau presennol a'r hyn rydych chi am ei ddatblygu. Bydd pob cwrs yn cymryd tua 10 wythnos i'w gwblhau ac mae modd ei gwblhau ar amser sy'n gyfleus i chi.

Am ragor o wybodaeth, ewch i: **https://dysgucymraeg.cymru/cymraeg-gwaith/camau/**

Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd

Mae ein holl e-byst yn cael eu hanfon trwy ddosbarthiad y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd felly cadwch eich cyfrif ar DEWIS yn gyfredol ac yn weithredol, neu byddwch chi'n colli allan ar wybodaeth bwysig oddi wrthon ni. Byddwch chi hefyd yn colli cyfle i hysbysebu **AM DDIM** i rieni sy'n defnyddio cronfa ddata'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i chwilio am ofal plant yn eu hardal leol nhw.

I gofrestru neu fewngofnodi i'ch cyfrif chi, dilynwch y ddolen yma: **https://www.dewis.cymru/secure/login.aspx**.

Os oes gyda chi unrhyw gwestiynau neu os oes angen cymorth arnoch chi gyda'ch cyfrif DEWIS, e-bostiwch: **GwasanaethGwybodaethiDeuluoedd@rctcbc.gov.uk**.

Facebook

Ymunwch â'n tudalen Facebook i dderbyn y newyddion diweddaraf gan y garfan a phartneriaid eraill.

I ymuno, ewch i...

https://www.facebook.com/groups/childcareteamRCT neu chwiliwch am **'RCT Childcare Team'** yn y cyfleuster chwilio ar Facebook.

Os dydych chi ddim eisiau derbyn y cylchlythyrau yma rhagor, rhowch wybod i ni ac fe wnawn ni eich tynnu chi oddi ar ein rhestr ddosbarthu.

Cysylltwch â ni...

Carfan Datblygu Gofal Plant:

- **01443 570048**
- **www.rctcbc.gov.uk/carfangofalplant**
- **carfangofalplant@rctcbc.gov.uk**
- **RCT Childcare Team**

Carfan y Cynnig Gofal Plant:

- **03000 628628**
- **www.rctcbc.gov.uk/cynniggofalplant**
- **DarparwyrCynnigGofalPlant@rctcbc.gov.uk**

Mae croeso i chi gyfathrebu â ni yn y Gymraeg